# LLOYD, RICHARD (1771 - 1834), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

**Enw:** Richard Lloyd
**Dyddiad geni:** 1771
**Dyddiad marw:** 1834
**Rhiant:** Jane Lloyd (née Prichard)
**Rhiant:** William Lloyd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Nantdaenog, Llantrisant, Môn, yn 1771, yn chweched plentyn i William Lloyd a'i wraig Jane, ferch yr hen Ymneilltuwr adnabyddus William Prichard o Glwch-dyrnog; ei daid o ochr ei dad oedd David Lloyd ap Rhys, o blwyf Heneglwys (J. E. Griffith, *Pedigrees*, 100); yn ei ysgrifau yng *Ngoleuad Cymru*, byddai Richard Lloyd yn ei alw'i hunan yn ' Rhisiart William Dafydd.' Ymunodd â seiat Fethodistaidd Gwalchmai yn 1789, a dechreuodd bregethu yn 1794. Priododd yn 1800, ac aeth i gadw siop ddillad ym Miwmares. Ordeiniwyd ef (fel ei gyd-ynyswr a'i gyfaill John Elias) yn ordeiniad 1811 yn y Bala. Bu farw 25 Mai 1834, yn 63 oed, a chladdwyd yn Llanfaes - claddwyd John Elias yntau wrth ei ochr. Disgrifir ef fel g r ffraeth a diddan, rhyw gymaint o fardd, a phregethwr da.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


Joseph Evans, *Biographical Dictionary of Ministers and Preachers of the Welsh Calvinistic Methodist Body ... to the close of the year 1850* (1907)

Richard Parry ('Gwalchmai'), *Enwogion Môn: henafol a diweddar, mewn cofnodau hanesol* (1877)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738143


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu